**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1491
Ein cyf/Our ref JB/00538/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

10 Tachwedd 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr pellach ynglŷn â deiseb P-06-1491 – "Rydym yn mynnu bargen deg i drigolion yr effeithir arnynt gan y cynllun Arbed/y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau".

Cysylltodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr â Llywodraeth Cymru gyda chais am gyllid, yn seiliedig ar fanyleb yr oeddent wedi'i datblygu, i gyweirio'r Inswleiddio Waliau Allanol (EWI) a oedd wedi'i osod yn wael yng Nghaerau. Dyrannwyd cyllid yn seiliedig ar gwmpas gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae'r prosiect wedi'i gyflawni ar y sail honno. Mae cyfanswm o £3.29 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu hyd yma. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi cyfrannu £855,000 o'i arian ei hun, i gywiro pethau. Mae fy swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheoli grantiau rheolaidd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'r arwyddion presennol yn dangos y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ar gyfer y cyllid y cytunwyd arno.

Mae'r cyllid yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sicrhau bod yr holl waith cyweirio yn cael ei gwblhau i safon PAS2035. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi penodi contractwyr profiadol, Warmworks, i wneud hyn. Cafodd pob tŷ ei asesu'n unigol i sicrhau bod y gwaith cyweirio yn bwrpasol i'r eiddo hwnnw. Yn ystod y broses hon, bu sgwrs barhaus gyda pherchnogion tai ynghylch priodoldeb pob datrysiad posibl ar gyfer eu hamgylchiadau penodol.

Bydd Warmworks yn gweithio gyda phob aelwyd i gael gwared ar yr inswleiddio diffygiol, gosod system awyru a chael arolwg RICS ac asesiad ôl-osod wedi'i ddiweddaru ymhellach. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys profion lleithder aml i sicrhau bod y safle symud ymaith yn sych. Yn dilyn hyn bydd y Clerc Gwaith yn arolygu cartrefi dethol, a bydd Warmworks yn cwrdd â pherchnogion tai eto i adolygu canfyddiadau a chytuno ar gymeradwyaeth o ran y camau nesaf a'r dyluniadau arfaethedig. Bydd yr adroddiadau nid yn unig yn manylu ar ddiffygion, ond byddant hefyd yn gwahaniaethu rhwng diffygion sy'n deillio o ddefnyddio EWI gwael a materion eraill.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhoddir dewis i'r perchnogion tai gael EWI newydd yn lle'r hen EWI yn ystod y broses hon, neu osod gorffeniad wedi'i rendro.  Unwaith y bydd dyluniadau wedi'u cwblhau, rhoddir cyfnod pwyllo saith diwrnod i'r perchnogion tai cyn i'r gwaith ddechrau.

Yn bwysig, un o'r camau olaf sy'n gysylltiedig â'r broses yw defnyddio triniaeth i gael gwared ar lwydni. Er fy mod yn deall ei bod yn rhwystredig peidio â chael y gwared ar y llwydni ar y dechrau, mae'n bwysig bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar ôl i'r cartrefi sychu, neu mae risg y bydd llwydni yn dychwelyd oherwydd problemau lleithder gweddilliol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, mae perchnogion tai yn derbyn pecyn trosglwyddo a chanllawiau ar gyfer system, ac yna arolygiad 12 mis i sicrhau ansawdd a chefnogaeth barhaus.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi adolygu'r arolygon RICS ac wedi cynghori nad yw gwaith plastro newydd wedi'i gynnwys gan fod gwaith mewnol y tu allan i gwmpas y prosiect sy'n cael ei ddiffinio fel y gofyniad sylfaenol ar gyfer PAS 2035. Mae'r arolygon wedi canfod nad yw'r rhan fwyaf o ddifrod i'r plastr yn ymddangos yn gysylltiedig â'r EWI, materion fel awyru gwael a diffygion presennol i gwteri a thoeau sy'n debygol o fod wedi gwaethygu'r cyflwr. Fodd bynnag, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi datgan bod gwaith ailblastro wedi'i wneud yn ôl yr angen i sicrhau cydymffurfiaeth â PAS. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cadarnhau y byddant yn parhau i adolygu'r gofynion hyn yn unol â'u gwaith i gyflawni'r prosiect.

Mae adroddiadau gan fy swyddogion wedi cadarnhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweithio gyda deiliaid tai ers camau cynnar y prosiect a thrwy gydol y prosiect. Mae hyn wedi cynnwys penodi rheolwr cyswllt cymunedol i ateb unrhyw ymholiadau gan breswylwyr pryderus. Mae'r rheolwr cyswllt ar gael i ymateb i gwestiynau a phryderon preswylwyr a gall gymryd camau i ddatrys problemau mewn modd amserol. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu sesiynau galw heibio rheolaidd lle mae cyfleoedd i gwrdd â'r contractwr penodedig. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cadarnhau i'm swyddogion yn ystod eu cyfarfodydd cynnydd prosiect bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda.

Rwy'n falch o ddweud bod y gwaith adfer ym Mryn Carno, Caerffili wedi dod i ben yn foddhaol, ein bod wedi dechrau ar waith yn Arfon, Gwynedd ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw fentrau mewn ardaloedd eraill lle mae EWI wedi methu. Diolch unwaith yn rhagor am barhau i ymgysylltu ar y mater hwn. Mae'r sefyllfa yng Nghaerau yn cael ei monitro'n agos i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn parhau i lywio sut rydym yn rheoli cynlluniau presennol i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i breswylwyr ledled Cymru, a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir

Jayne Bryant

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government